Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Fframwaith Llywodraethiant

Dyddiad Cyhoeddi: Mehefin 2026
Dyddiad Adolygu: Mehefin 2028

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:


- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@cyg-wlc.cymru
- Gwefan: www.comisiynyddygymraeg.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon LL55 1TH

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Fframwaith Llywodraethiant | 1 |
| 2 | Rôl ac amcanion | 1 |
| 3 | Cynllun Strategol ac adolygu cynnydd gweithredol | 3 |
| 4 | Swydd y Comisiynydd | 3 |
| 5 | Trefniadau Llywodraethiant | 7 |
| 6 | Mesurau gweithredol eraill | 11 |
| 7 | Trosolwg gweledol o'r Fframwaith | 14 |
| 8 | Cyfnod adolygu | 15 |

# 1 Fframwaith Llywodraethiant

1.1 Mae'r Fframwaith hwn yn egluro ar ba sail y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ei sefydlu; y dull a ddefnyddir i'w lywodraethu a'i reoli; a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.

1.2 Caiff Datganiad Llywodraethiant blynyddol ei baratoi a'i gyhoeddi fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol sy'n rhoi crynodeb o'r ffordd y mae'r Fframwaith hwn wedi ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn.

# 2 Rôl ac amcanion

### Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

2.1 Caiff rôl Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') ei sefydlu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur').

2.2 Mae'r Mesur hefyd yn nodi mai prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny rhaid iddo weithio tuag at gynyddu:

- darpariaeth gwasanaethau Cymraeg, a
- cyfleoedd eraill i bobol ddefnyddio'r Gymraeg.

2.3 Mae'r Mesur yn nodi bod angen i'r Comisiynydd, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw:

- i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru;
- i'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny;
- i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; ac
- i'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

### Swyddogaethau penodol

2.4 Mae holl bwerau a chyfrifoldebau'r Comisiynydd yn deillio o Ran 2 o'r Mesur. Mae hyn yn cynnwys gweithredu fel rheoleiddiwr sydd â phwerau gorfodi.

2.5 Mae'r Mesur yn nodi'r ffordd mae'n rhaid i'r Comisiynydd weithredu mewn nifer o feysydd gwahanol yn cynnwys:

- llunio adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yn y cyfnod hwnnw;
- sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion ynglŷn â gweithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd;

- llunio adroddiad blynyddol;
- llunio dogfen polisi gorfodi;
- creu a chynnal cofrestr camau gorfodi;
- cyhoeddi cofrestr buddiannau ar gyfer pob deiliad swydd perthnasol (y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd);
- llunio amcangyfrif o incwm a gwariant swyddfa'r Comisiynydd a chyflwyno'r amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf 5 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi;
- cadw cofnodion cyfrifyddol priodol yn unol â chyfarwyddiadau a roddir, gyda chydsyniad y Trysorlys, gan Weinidogion Cymru;
- cyflwyno'r cyfrifon a luniwyd ar gyfer blwyddyn ariannol i Archwilydd Cyffredinol Cymru heb fod yn hwyrach na 31 Awst yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

2.6 Caiff y Comisiynydd hefyd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef er mwyn hybu a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hynny'n cynnwys gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau canlynol:

- hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- annog arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg;
- cynnal ymholiad i unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd;
- cychwyn achos cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, neu ymyrryd mewn achos o'r fath os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd fod yr achos yn un sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef;
- darparu cymorth i unigolyn os yw'r person hwnnw yn barti i achos cyfreithiol sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef;
- cadw'r gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth;
- llunio a chyhoeddi adroddiadau;
- gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud;
- gwneud gweithgareddau addysgol neu gomisiynu eraill i'w gwneud;
- cyflwyno sylwadau i unrhyw berson;
- gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru;
- rhoi cyngor i unrhyw berson.

## Gwrthdaro mewn swyddogaethau

2.7 Gall y Comisiynydd fod mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro rhwng dwy swyddogaeth y mae'n ei harfer. Mewn sefyllfa felly ni fydd un swyddogaeth yn cyfyngu ar y llall nac ychwaith yn dylanwadu ar y llall.

2.8 Pan gyfyd sefyllfaoedd o wrthdaro posibl dylai swyddogion a'r Comisiynydd arfer unrhyw swyddogaeth a/neu bŵer i'r pwrpas y'i bwriadwyd.

2.9 Mewn sefyllfa o wrthdaro posibl dylai fod gan swyddogion a'r Comisiynydd resymau clir wedi eu dogfennu yn egluro pam eu bod yn arfer swyddogaeth neu bŵer neilltuol. Dylai'r Comisiynydd ei hun allu rhoi rheswm dros unrhyw weithred a gymerwyd ganddo. e.e. bydd rhesymau dros agor ymchwiliad wedi eu dogfennu mewn Ffurflen Ymresymu ac yn seiliedig ar ffeithiau perthnasol i amheuaeth o fethiant i weithredu safon.

# 3 Cynllun Strategol ac adolygu cynnydd gweithredol

3.1 Gweledigaeth y Comisiynydd yw **Cymru lle gall pobl fyw eu bywydau yn Gymraeg.**

3.2 Er mwyn cyfrannu tuag at gyflawni'r weledigaeth honno, mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi Cynllun Strategol am y cyfnod 2025-2030 sy'n egluro ein hamcanion strategol, ein themâu arbennig, a'r ffyrdd fyddwn ni'n gweithredu. Caiff cynnydd yn erbyn pob amcan strategol ei fesur drwy gyfres o ddangosyddion ac mae'n sail i'r gweithgareddau a'r prosiectau a nodir yn y cynllun gweithredol blynyddol.

3.3 Caiff y cynllun gweithredol ei adolygu bob chwarter fesul tîm gan y Tîm Arwain a caiff crynodeb perthnasol ei rannu gyda'r Panel Cynghori er mwyn sicrhau trosolwg a bod cynnydd a materion yn cael eu hystyried yn briodol. Caiff unrhyw risgiau a nodir eu huwchgyfeirio, lle bo'n briodol, i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

### Gwerthoedd

3.4 Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i weithredu yn unol â'r gwerthoedd craidd canlynol:

- Mae **dangos parch** at bawb yn ganolog i bopeth a wnawn;
- Mae bod yn **agored** ac **ymddiried** yn ein gilydd yn sylfaen i ddiwylliant ein gweithle;
- Mae **tegwch, gonestrwydd a chysondeb** yn greiddiol i bob agwedd ar ein gwaith.
- Mae **cydweithio gydag eraill** mewn ffordd briodol a blaengar yn bwysig i ni.

# 4 Swydd y Comisiynydd

### Corfforaeth un dyn

4.1 Corfforaeth un dyn yw'r Comisiynydd o ran endid cyfreithiol. Mae hyn yn golygu bod y corff yn cynnwys un swydd gorfforedig a gaiff ei chyflawni gan un person.

4.2 Y Comisiynydd felly sy'n gyfrifol ac yn atebol am gynnal a gweinyddu'r holl waith a wneir gan y corff a gwneir pob penderfyniad yn ei enw ac ar ei ran.

## Penodi

4.3 Penodir y Comisiynydd gan Brif Weinidog Cymru am gyfnod penodol untro o 7 mlynedd. Caiff y swydd a'r holl bwerau cysylltiedig ei throsglwyddo o un deilydd swydd i'r nesaf.

4.4 Caiff cyflog blynyddol y Comisiynydd ei bennu gan Brif Weinidog Cymru.

## Perthynas â Llywodraeth Cymru

4.5 Mae'r swydd yn annibynnol ar lywodraeth.

4.6 Mae'r Comisiynydd yn adrodd ar ei holl weithgareddau drwy Adroddiad Blynyddol statudol a amlinellir yn adran 18 y Mesur. Yn ogystal, bydd Cyfrifon Blynyddol yn cael eu cynhyrchu o dan drefniadau y cytunwyd arnynt gyda'r Trysorlys; mae'r rhain yn ddarostyngedig i'w harchwilio gan Archwilio Cymru. Caiff yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon eu cyhoeddi gyda'i gilydd.

4.7 Mae swyddogaethau'r Comisiynydd yn berthnasol i Senedd Cymru a bydd Pwyllgorau perthnasol yn craffu ar ein gwaith ac yn ein gwahodd i roi tystiolaeth arbenigol yn ôl yr angen. Rydym yn cael ein cyllido gan Weinidogion Cymru, ac mae ein perthynas strategol yn cael ei ddiffinio mewn memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru.

## Swyddog Cyfrifyddu ac atebolrwydd

4.8 Mae paragraff 16, Atodlen 1 o'r Mesur yn nodi mai'r Comisiynydd yw Swyddog Cyfrifyddu y sefydliad ac sydd â'r cyfrifoldebau a nodir o bryd i'w gilydd gan y Trysorlys, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid y sefydliad.

4.9 Mae'r Comisiynydd wedi cytuno i ymrwymo i'r fframwaith ac egwyddorion fel sydd wedi ei nodi o fewn Llawlyfr Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a 'Managing public money'. Mae Pennod 3 o fewn y ddwy ddogfen yn manylu ar brif gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu.

4.10 Mae paragraff 16, Atodlen 1 o'r Mesur yn nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd, fel y Swyddog Cyfrifyddu, sydd yn ddyledus i Weinidogion Cymru, Senedd Cymru, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd, y Tŷ Cyffredin, a/neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Tŷ Cyffredin.

4.11 Mae gan Swyddog Cyfrifyddu gyfrifoldeb personol dros:

- Priodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus maent yn atebol amdano;
- Gadw cyfrifon priodol;
- Weinyddu doeth a darbodus;
- Osgoi gwastraff a gormodedd;
- Defnyddio pob adnodd yn effeithlon ac effeithiol.

4.12 Yn benodol mae disgwyl i Swyddog Cyfrifyddu:

- lofnodi cyfrifon gan dderbyn cyfrifoldeb personol dros sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno’n briodol;
- sicrhau bod gweithdrefnau ariannol priodol yn cael eu dilyn;
- reoli cyllid cyhoeddus yn briodol ac yn dda, a sicrhau bod cyllid sydd yn nwylo unrhyw swyddog yn cael ei wirio drwy drefniant annibynnol ac effeithiol;
- rheoli a diogelu asedau sydd o dan eu gofal yn dda;
- rhoi ystyriaeth ariannol berthnasol i unrhyw gynigion polisi sy’n ymwneud a gwariant neu incwm y mae’n gyfrifol am (gan gynnwys fforddiadwyedd, chynaliadwyedd, gwerth am arian ayyb)
- rheoli cyfleodd a risgiau
- cynllunio gwaith ymchwil a gwerthuso i asesu effeithlonrwydd a gwerth am arian amcanion strategol a rhaglenni gwariant;
- rhoi trefniadau priodol mewn lle i wrthsefyll twyll;
- sicrhau fod gan reolwyr weledigaeth glir o’u hamcanion a’r modd i asesu;
- sicrhau bod cyfrifoldebau clir wedi ei aseinio i reolwyr gan gynnwys craffu’n feirniadol ar allbwn a gwerth am arian, a bod hyfforddiant, gwybodaeth a mynediad parhaus i gyngor arbenigol sydd ei angen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol;
- sicrhau bod trefniadau dirprwyo yn hyrwyddo rheoli da a bod y staff angenrheidiol sydd â chydbwysedd sgiliau priodol ar gael i gefnogi
- sicrhau rheoleidd-dra a phriodoldeb gwariant;
- ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ’r Cyffredin.

## Swyddogion a threfniadau dirprwyo

4.13 Cefnogir y Comisiynydd gan swyddogion sy’n cael eu cyflogi gan, ac yn gweithio i’r, Comisiynydd.

4.14 Yn unol ag adran 12 o'r Mesur mae’n rhaid i’r Comisiynydd gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer:

- y nifer y staff y caniateir eu penodi;
- telerau ac amodau gwasanaeth y staff; a
- taliadau a wneir o dan adran 12 (3) i (5) o’r Mesur sydd yn cynnwys tâl cydnabyddiaeth, unrhyw lwfansau a phensiynau.

4.15 Er mai’r Comisiynydd, fel corfforaeth un dyn, sydd â’r holl bwerau a dyletswyddau ffurfiol, mae adran 13 o'r Mesur yn nodi caiff y Comisiynydd ddirprwyo unrhyw un neu ragor neu’r oll o swyddogaethau’r Comisiynydd i aelod o’i staff. Mae’r Comisiynydd felly wedi dirprwyo cyfrifoldebau i staff i arfer rhai o’i ddyletswyddau statudol yn cynnwys y rolau statudol canlynol:

- Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)
- Uwch Berchennog Risg

- Swyddog Diogelu Data
- Swyddog Iechyd a Diogelwch

4.16 Mae rhai penderfyniadau yng nghyswllt Rhannau 4-6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio. Gweler yr adran 'Cyfarfod Dyfarnu' isod.

4.17 Yn ogystal, mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo ei gyfrifoldeb o gynnig cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru i'r Panel Safoni Enwau Lleoedd ac ni fydd yn ymyrryd yn ymarferol gyda'r gwaith yma fel mater o drefn.

4.18 Mae argymhellion y Panel yn cael eu rhannu'n gyhoeddus drwy'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol ar ein gwefan. Yn ogystal mae Canllawiau Safoni Cenedlaethol wedi eu cyhoeddi yma.

## Dirprwy Gomisiynydd

4.19 Mae'n ofynnol o dan adran 12 o'r Mesur i'r Comisiynydd benodi Dirprwy Gomisiynydd.

4.20 Nid yw rôl y Dirprwy Gomisiynydd yn bortffolio ar wahân ond yn hytrach yn cael ei chyflawni ochr yn ochr â chyfrifoldebau swydd Cyfarwyddwr. Dim ond pan fydd y Comisiynydd yn absennol, neu ar gais penodol y bydd y pwerau dirprwyedig yn cael eu harfer.

4.21 Bydd Prif Weinidog Cymru yn penodi Dirprwy Gomisiynydd os yw swydd y Comisiynydd yn wag, neu os yw'n ymddangos i Brif Weinidog Cymru y bydd y Comisiynydd methu â phenodi Dirprwy Gomisiynydd.

4.22 Gall y Dirprwy Gomisiynydd arfer holl swyddogaethau'r Comisiynydd fel pe byddai'n Gomisiynydd os yw swydd y Comisiynydd yn wag, neu os yw'n ymddangos i Brif Weinidog Cymru nad yw'r Comisiynydd am unrhyw reswm yn gallu arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

## Cyfarwyddwyr

4.23 Mae'r Comisiynydd wedi penodi tri Chyfarwyddwr, pob un â chyfrifoldeb am arwain a rheoli un o dair prif gyfarwyddiaeth y sefydliad, sef Rheoleiddio, Meysydd Strategol, a Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol.

4.24 O fewn eu cylchoedd cyfrifoldeb, mae'r Cyfarwyddwyr yn:

- cyfrannu at ddatblygiad a chyflawni gweledigaeth, blaenoriaethau a chyfeiriad strategol y Comisiynydd;
- arwain a goruchwylio'r gwaith gweithredol o ddydd i ddydd o fewn eu portffolios, gan sicrhau aliniad rhwng gweithgarwch gweithredol a nodau strategol;
- gwneud penderfyniadau gweinyddol a gweithredol o fewn fframwaith dirprwyo a therfynau awdurdod cytunedig;

- sicrhau rheolaeth effeithiol ar staff, adnoddau a chyllidebau, gan hyrwyddo gwerth am arian, perfformiad a risg briodol;
- gweithredu, monitro a chefnogi gweithrediad polisïau a strategaethau a gymeradwywyd gan y Comisiynydd, gan ddarparu sicrwydd ar gynnydd, effaith a risgiau.

### Gweithio'n gyfochrog â sefydliadau eraill

4.25 Wrth wneud ei waith, bydd y Comisiynydd yn cydweithio gyda nifer o sefydliadau eraill er lles y Gymraeg. Gall hynny olygu llunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth i gadarnhau sut bydd hynny'n digwydd.

4.26 Yn yr un modd, mae'r Mesur yn galluogi'r Comisiynydd i weithio ar y cyd ag Ombwdsmyn a Chomisiynwyr eraill ar ymchwiliadau safonau, neu ymchwiliadau eraill.

4.27 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Banel Cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

# 5 Trefniadau Llywodraethiant

5.1 Manylir yma ar y prif systemau a phrosesau sydd mewn lle o fewn y sefydliad i sicrhau trefniadau llywodraethiant priodol a chadarn.

### Tîm Arwain

5.2 Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Tîm Arwain sy'n cynnwys y Comisiynydd ei hun a'r holl Gyfarwyddwyr yn y strwythur staffio. Cyfrifoldeb y Tîm Arwain yw cynorthwyo'r Comisiynydd i osod cyfeiriad a chynnal gorolwg strategol dros y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredol.

5.3 Yn y pen draw, y Tîm Arwain yw'r prif fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol am faterion gweithredu, adnoddau, cyfathrebu a materion gweinyddol eraill er mwyn gweithredu'r cynllun strategol a'r holl brosesau cynllunio busnes eraill, ac ar gyfer monitro perfformiad a gwariant.

5.4 Mae'r Tîm Arwain yn gyfrifol am:

- ddiffinio a chymeradwyo cyfeiriad strategol gwaith y Comisiynydd a gosod amcanion heriol;
- cynnig arweiniad strategol effeithiol fel y gall y Comisiynydd fodloni ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg (2011);
- gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw;
- cynllunio busnes a rhaglennu gwaith gyda ffocws ar werth am arian;
- sicrhau bod gweithgareddau'r Comisiynydd yn cael eu cynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol;
- hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;

- goruchwylio a monitro perfformiad lefel uchaf, er mwyn sicrhau bod y Comisiynydd yn llwyr gyflawni ei amcanion;
- arddangos safonau uchel o ran llywodraethau corfforaethol ac uniondeb a sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith er mwyn rhoi sicrwydd o ran rheoli risg a rheolaeth fewnol;
- arddangos gwerthoedd y Comisiynydd ym mhob peth a wneir.

5.5 Mae rôl y Tîm Arwain o ran penderfyniadau yn cydnabod, ar adegau, y bydd rhai materion y mae'r Comisiynydd ei hun yn penderfynu arnynt. Yn yr un modd, mae gan y Comisiynydd yr hawl, fel corfforaeth un dyn i wneud penderfyniadau sydd yn groes i farn y mwyafrif o'r Tîm Arwain. Disgwylir mai eithriad fydd y sefyllfaoedd hyn a bydd yn cael ei nodi'r glir o fewn cofnodion unrhyw gyfarfod pan fo hynny'n berthnasol.

5.6 Caiff penderfyniadau am waith rheoleiddio'r Comisiynydd eu gwneud y tu allan i'r Tîm Arwain yn y Cyfarfod Dyfarnu (gweler isod).

## Cyfarfod Dyfarnu

5.7 Mae prosesau statudol i'w dilyn wrth i'r Comisiynydd fynd ati i arfer rhai o'i swyddogaethau yng nghyswllt Rhannau 4-6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn manylu ar rai o'r agweddau sydd ynghlwm â'r prosesau hynny.

5.8 Y Cyfarfod Dyfarnu yw'r fforwm trafod yng nghyswllt penderfyniadau Rhan 4-6 o Fesur y Gymraeg (Cymru 2011). Mae Cylch Gwaith penodol ar wahân yn bodoli ar gyfer y fforwm hwn.

5.9 Mae'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio wedi'i awdurdodi i wneud pob penderfyniad gweithredol o fewn cwmpas eu rôl, ac eithrio'r rhai sy'n dod o fewn y materion diffiniedig ac sydd wedi eu cadw'n benodol ar gyfer y Comisiynydd. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Materion y bernir eu bod yn newydd, yn ddadleuol neu'n cynnwys lefel uchel o risg
- Materion sy'n debygol o fod o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol neu sydd â phroffil uchel
- Materion a allai effeithio ar enw da'r Comisiynydd neu berthynas â rhanddeiliaid
- Penderfyniadau sy'n gosod cynsail neu sydd â goblygiadau polisi sylweddol
- Achosion Tribiwnlys y Gymraeg
- Unrhyw faterion eraill y mae'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio yn eu hystyried yn briodol ar gyfer eu huwchgyfeirio.

5.10 Bydd y cyfarfodydd yma'n digwydd yn rheolaidd (pob pythefnos fel rheol). Gofynnir i swyddogion gyflwyno unrhyw fater y maent angen penderfyniad yn ei gylch o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y Cyfarfod. Cedwir yr hawl i'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio wneud penderfyniadau y tu allan i'r Cyfarfod lle bo angen gwneud hynny.

5.11 Bydd unrhyw benderfyniadau a wneir yn y Cyfarfod yn cael eu dogfennu drwy gofnodion ffurfiol a'u hadrodd i'r Comisiynydd yn rheolaidd.

### Cyfarfod cymeradwyo Cynnig Cymraeg

5.12 Cydnabyddiaeth swyddogol gan y Comisiynydd yw'r Cynnig Cymraeg ar gyfer sefydliadu sydd wedi gweithio gyda'r Comisiynydd i lunio Cynllun Datblygu'r Gymraeg cryf. Bydd cydnabyddiaeth y Comisiynydd yn cael ei roi yn ffurfiol mewn cyfarfod cymeradwyo a gynhelir bob 5 wythnos. Os na fydd y Comisiynydd yn gallu bod yn bresennol dirprwyir y cyfrifoldeb o roi'r gydnabyddiaeth i'r Cyfarwyddwr Strategol yn y cyfarfodydd hyn.

### Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

5.13 Mae Adran 23 o'r Mesur yn darparu ar gyfer sefydlu panel o gynghorwyr i'r Comisiynydd a gaiff ei alw'n Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (y 'Panel'). Penodir y Panel gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r Panel gynnwys rhwng 3 a 5 aelod ar unrhyw amser.

5.14 Nid yw aelodau'r Panel yn gyflogeion i Lywodraeth Cymru. Mae Atodlen 4 o'r Mesur yn amlinellu agweddau penodi, tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau, telerau penodi, cyfnod penodiad a rheoliadau penodi aelodau'r Panel.

5.15 Nid yw'r Comisiynydd yn atebol i'r Panel ond caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater. Gall hynny fod yn unrhyw un neu ragor neu bob un o aelodau'r Panel.

5.16 Rôl y Panel yw cynghori'r Comisiynydd mewn perthynas â swyddogaethau'r Comisiynydd yn unol â'r Mesur. Mae'r Comisiynydd yn gofyn i'r Panel am gyngor ar ei berfformiad yn erbyn ei gynllun gweithredol a'i amcanion strategol.

5.17 Mae Cylch Gwaith Panel Cynghori'r Comisiynydd yn cofnodi dyletswyddau'r Panel ynghyd â materion eraill megis y cyfarfodydd, ysgrifenyddiaeth y Panel, trefniadau talu, rhoddion a lletygarwch a buddiannau.

5.18 Pan fydd tymor aelodau'r Panel yn dod i ben, fe fydd Gweinidogion Cymru yn trafod â'r Comisiynydd er mwyn adnabod anghenion am arbenigedd y Panel cyn mynd ati i ddechrau proses penodiadau cyhoeddus.

5.19 Mae aelodaeth y Panel Cynghori i'w gweld ar wefan y Comisiynydd.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

5.20 Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn cael ei rhedeg mewn ffordd ddarbodus, effeithiol ac effeithlon er mwyn sicrhau gwerth am arian cyhoeddus. Er nad oes unrhyw ofyniad statudol i wneud hynny, mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Risg (y 'Pwyllgor') fel pwyllgor sefydlog i ddarparu cymorth a sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Tîm Arwain ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, risg a llywodraethiant. Mae'r

Pwyllgor hefyd yn goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol sy'n cwmpasu holl feysydd gwaith y Comisiynydd.

5.21 Y Comisiynydd fydd yn penderfynu aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Bydd y Comisiynydd yn penodi o leiaf 3 unigolyn i fod yn rhan o'r Pwyllgor drwy hysbyseb allanol. Ni fydd aelodau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg yn cael bod yn aelodau o'r Pwyllgor. Bydd tymor penodiad pob aelod yn gyfnod o 3 blynedd. Yn amodol ar adolygiad boddhaol, mae'n bosibl y bydd modd adnewyddu'r penodiad am ail dymor o 3 blynedd yn unig. Bydd gan y Pwyllgor drefn flynyddol ar gyfer Rheoli Perfformiad aelodau.

5.22 Gall y Pwyllgor benodi aelodau ychwanegol am gyfnod hyd at 12 mis i ddarparu sgiliau, gwybodaeth neu brofiad arbenigol. Gall y Pwyllgor brynu mewn cyngor arbenigol ar gost y sefydliad, yn amodol ar gyllidebau a gytunwyd gan y Comisiynydd.

5.23 Mae aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg i'w gweld ar wefan y Comisiynydd.

5.24 Mae mwy o wybodaeth am y Pwyllgor a'u dyletswyddau i'w canfod o fewn Cylch Gwaith y Pwyllgor.

## Archwilwyr Mewnol ac Allanol

5.25 Mae swyddogaeth archwilio mewnol yn darparu gwerthusiad gwrthrychol, a barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

5.26 Caiff y cynllun archwilio mewnol blynyddol ei baratoi gan yr archwilwyr a caiff ei gymeradwyo gan y Comisiynydd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

5.27 Yn unol ag Atodlen 1, Adran 5 o'r Mesur, Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd yn gyfrifol am archwilio cyfrifon y Comisiynydd. Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd archwilio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wnaed o adnoddau wrth i swyddogaethau'r Comisiynydd gael eu cyflawni.

## Tribiwnlys y Gymraeg

5.28 Mae Tribiwnlys y Gymraeg (y "Tribiwnlys") yn gorff statudol annibynnol. Sefydlwyd y Tribiwnlys ym mis Ebrill 2015 o dan adran 120 o'r Mesur.

5.29 Mae'r Tribiwnlys yn delio gydag apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd mewn perthynas â safonau'r Gymraeg. Mae gan sefydliadau ac achwynwyr hawl i gyflwyno cais neu apêl i'r Tribiwnlys os ydynt yn anfodlon gyda phenderfyniad mewn perthynas â:

- safonau a osodwyd gan y Comisiynydd;
- canlyniad ymchwiliad gan y Comisiynydd;
- penderfyniad gan y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn.

### Achrediadau annibynnol

5.30 Bydd y Comisiynydd yn ymgeisio am achrediadau annibynnol blynyddol mewn meysydd penodol fel diogelwch seibr er mwyn derbyn barn annibynnol arbenigol ar addasrwydd a digonolrwydd ei drefniadau llywodraethiant.

# 6 Mesurau gweithredol eraill

### Rheoli Risg

6.1 Mae trefniadau rheoli risg y Comisiynydd yn cael ei arwain gan y Fframwaith Rheoli Risg. Mae'r Tîm Arwain yn adolygu risgiau gweithredol fel rhan o'r adolygiadau cynnydd chwarterol ar y cynllun gweithredol. Yn ogystal, caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Arwain. Caiff y risgiau hyn eu hymgorffori i'r Gofrestr Risg Strategol lle'n berthnasol.

6.2 Caiff risgiau ar lefel strategol eu hadolygu'n ffurfiol pob chwarter gan y Tîm Arwain gyda phroses adrodd yn dilyn hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol yn gweithredu fel Rheolwr Risg ac Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y sefydliad a thrwy hynny yn gyfrifol am arwain ar gadw gorolwg dros holl risgiau'r sefydliad.

6.3 Mae'r Fframwaith risg yn cydnabod nad yw'n bosib dileu pob risg ond drwy'r Gofrestr Risg Strategol, caiff risgiau eu hadnabod a'u rheoli ac yna eu gostwng i lefel dderbyniol.

### Strwythurau adrodd

6.4 Mae strwythur llywodraethu ffurfiol y Comisiynydd yn cael ei gefnogi gan strwythurau adrodd a sefydlwyd er mwyn rheoli a darparu sicrwydd ar feysydd penodol o bwys i'r Comisiynydd.

### Effeithiolrwydd

6.5 Bydd y Tîm Arwain, Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnal ymarfer hunan asesu unwaith y flwyddyn. Bydd yr ymarfer yma'n asesu adborth gan aelodau'r fforymau perthnasol, unrhyw wersi a ddysgwyd, a gwelliannu posibl.

### Ymgynghori

6.6 Bydd y Comisiynydd yn ymgynghori gyda'r Pwyllgor Undeb ar bolisïau a gweithdrefnau mewnol fydd yn effeithio ar swyddogion.

## Cofrestr Buddiannau

6.7 Mae Rhan 8, Pennod 1 o'r Mesur yn ymwneud ag uniondeb cymeriad y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd. Yma, mae'n nodi bod angen i'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd greu a chynnal cofrestr buddiannau. Rhaid i'r gofrestr hon gynnwys eu holl fuddiannau cofrestradwy. Mae copi o'r gofrestr buddiannau ar gyfer y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Comisiynydd ac ar ein gwefan.

6.8 Mae adrannau 135 i 137 o'r Mesur yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ynghylch cyhoeddi cofrestrau buddiannau, gwrthdrawiadau buddiannau, a dilysrwydd gweithredoedd deiliad swydd perthnasol. Mae'r rheoliadau hyn yn gyson â'r awydd i'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd weithredu mewn ffordd dryloyw, atebol a diduedd, gan gadw at y safonau uchaf o briodoldeb wrth reoli eu busnes

6.9 Ni all y Comisiynydd arfer swyddogaethau os oes buddiant wedi ei gofrestru. Mewn achos o'r fath, dirprwyir y swyddogaeth honno i'r Dirprwy Gomisiynydd neu i aelod arall o staff y Comisiynydd.

6.10 Lle bo cwyn am fethiant i ddatgelu buddiant perthnasol, bydd y gŵyn yn cael ei chyfeirio at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd cwyn am fethiant Comisiynydd y Gymraeg ei hunan i ddatgelu buddiant yn cael ei gyfeirio at y Prif Weinidog.

6.11 Diweddarir y Gofrestr hon yn barhaus. Bydd yn cael ei diweddaru o fewn 4 wythnos i unrhyw fudd yn cael ei godi neu i'r deiliad fod yn ymwybodol o'r buddiant. Bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am sicrhau bod y gofrestr yn cael ei ddiweddaru pob 6 mis.

6.12 Er mwyn bod yn agored a thryloyw, bydd buddiannau aelodau'r Panel Cynghori, y Pwyllgor Archwilio a Risg a hefyd y Tîm Arwain llawn yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, er nad oes gofyniad i'r sefydliad wneud hyn.

6.13 Yn ychwanegol i'r uchod, ac er mwyn sicrhau llywodraethu cadarn, mae'n ofynnol i holl staff y Comisiynydd gwblhau datganiadau buddion pob 6 mis. Mae hyn wedi ei nodi o fewn Cod Ymddygiad Staff. Bydd datganiadau buddion swyddogion yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Bydd gan Reolwyr Llinell fynediad at ffurflenni aelodau eu tîm. Cedwir yr hawl i drafod eu cynnwys gyda'r swyddogion perthnasol os rhagwelir unrhyw botensial am wrthdaro wrth gyflawni dyletswyddau arferol eu swyddi.

## Datgan buddiannau mewn cyfarfodydd

6.14 Dylai unrhyw ddiddordeb gael ei ddatgan cyn dechrau trafod unrhyw eitem berthnasol ar agenda Tîm Arwain, Pwyllgor Archwilio a Risg, Panel Cynghori, neu Gyfarfod Dyfarnu.

6.15 Dylid nodi'r datganiad heb ystyried a yw'r buddiant eisoes wedi cael ei gofnodi yn y Gofrestr. Unwaith y bydd y diddordeb wedi cael ei ddatgan mewn cyfarfod, gall y Tîm neu'r Pwyllgor benderfynu:

- caniatáu cyfranogiad llawn yr unigolyn wrth drafod yr eitem;

- caniatáu i'r unigolyn gymryd rhan mewn trafodaethau, ond heb hawl i bleidleisio;
- gofyn i'r unigolyn adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem ar yr agenda.

## Derbyn rhoddion, gwobrwyon a lletygarwch

6.16 Mae'n hollbwysig bod y Comisiynydd yn parhau, ac yn cael ei hystyried, yn annibynnol. Fel rhan o hyn, mae'n rhaid i staff y Comisiynydd ymddangos yn ddiduedd ac amhleidiol.

6.17 Er mwyn osgoi'r posibilrwydd o unrhyw honiad o lwgrwobrwyo neu gyfaddawdu, mae'r Comisiynydd yn cadw cofrestr o unrhyw nwyddau, rhodd a lletygarwch sy'n cael eu derbyn a'u gwrthod gan y Comisiynydd ac aelodau staff yn ystod eu dyletswyddau. Mae Cod Ymddygiad Staff yn egluro mwy am y broses y mae disgwyl i aelodau staff ddilyn mewn sefyllfaoedd lle byddent yn cael cynnig unrhyw rodd.

6.18 Mae hefyd disgwyl i aelodau'r Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Risg hysbysebu'r ysgrifenyddiaeth am unrhyw gynigion o roddion neu letygarwch a wnaed ac unrhyw gynigion a wrthodwyd. Dylid sicrhau cofnodi unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd neu gwrthodwyd ar Gofrestr Rhoddion. Bydd disgwyl i aelodau gydnabod y bydd materion rhoddion a lletygarwch yn agored i graffu cwbl gyhoeddus.

## Cod ymddygiad

6.19 Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad sy'n amlinellu'r safonau ymddygiad y mae disgwyl i holl swyddogion ei arddel. Mae'r cod wedi ei seilio ar y saith egwyddor mewn bywyd cyhoeddus sef: anhunanoldeb, cywirdeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

## Twyll

6.20 Mae gan y Comisiynydd weithdrefnau a pholisïau ar waith i sicrhau nad yw'r sefydliad yn goddef twyll. Caiff Cofrestr Risg Twyll ei hadolygu yn flynyddol a'i chymeradwyo gan y Tîm Arwain a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

6.21 Yn ogystal, bydd y Comisiynydd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ymateb i holiadur Archwilio Cymru ar lefelau rheolaeth mewnol yn ymwneud â thwyll fel rhan o'r archwiliad blynyddol.


## Trefniadau Chwythu'r Chwiban

6.22 Mae gan y Comisiynydd Bolisi Chwythu'r Chwiban mewn lle. Mae manylion cyswllt Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a rheolwr o fewn tîm Archwilwyr Mewnol y Comisiynydd wedi eu cynnwys yn y polisi fel unigolion y gall swyddogion godi pryderon gyda nhw.

6.23 Mae gan y Comisiynydd weithdrefn gwyno benodol os bydd unigolyn am gwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

# 7 Trosolwg gweledol o'r Fframwaith

7.1 Gyda'i gilydd mae'r trefniadau llywodraethiant sydd mewn lle yn rhoi tair haen o sicrwydd i'r Comisiynydd fel a ganlyn:




7.2 Mae'r haen gyntaf yn ymwneud â'r ffordd y mae gwaith a risgiau yn cael eu rheoli o ddydd i ddydd. Mae swyddogion, Uwch Swyddogion a Chyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau addasrwydd y polisïau gweithdrefnau a'r prosesau yn y meysydd perthnasol. Mae sicrwydd yn dod yn uniongyrchol gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni gwaith, proses neu amcanion strategol.

7.3 Mae'r ail haen yn ymwneud â sut mae'r sefydliad yn goruchwylio rheolaeth y fframwaith. Mae'r Panel Cynghori, Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Archwilwyr Mewnol yn gyrff annibynnol ond sy'n gweithredu hyd-braich oddi wrth y Comisiynydd drwy roi cyngor i'r Comisiynydd ar addasrwydd ac effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethiant a chynghori ar y camau i'w cymryd lle bo angen gwella.

7.4 Yn olaf, mae'r trydydd haen yn ymwneud â derbyn sicrwydd o du allan y sefydliad ar y trefniadau llywodraethiant sydd mewn lle. Yn eu tro, mae gwaith yr archwilwyr allanol, Llywodraeth Cymru a Tribiwnlys y Gymraeg ynghyd â derbyn achrediadau

annibynnol yn ffordd pellach o dderbyn sicrwydd annibynnol ar y ffordd mae'r Comisiynydd yn gweithredu ei swyddogaethau ac yn rheoli ei adnoddau.

# 8 Cyfnod adolygu

8.1 Caiff y Fframwaith Llywodraethiant ei hadolygu bob dwy flynedd.